

Gwyddor Anifeiliaid

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Hydref 2009

Canmoliaeth i Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn yr Asesiad Ymchwil



Bob yn dipyn, mae holl adrannau prifysgolion y Deyrnas Gyfunol yn cael eu hasesu am wreiddioldeb, pwysigrwydd a manylder yr ymchwil gwyddonol y maent yn ei gynnal. Yn yr asesiad diweddaraf, barnwyd bod 10% o'r ymchwil yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn cyrraedd y safonau uchaf yn y byd, roedd 35% yn rhagori ar lefel ryngwladol, roedd 50% yn cael ei gydnabod yn rhwyngwladol ac roedd 5% yn cael ei gydnabod yn genedlaethol. Nid oedd dim elfen o'r ymchwil yn is na'r safon ddisgwyliedig. Mae'r canlyniad gwych hwn yn golygu mai Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig berfformiodd orau yng Nghymru yn yr uned asesu Gwyddor Filfeddygol, Amaethyddiaeth a Gwyddor Bwyd, a'r Sefydliad oedd y 6ed gorau yn yr uned hon ar draws y Deyrnas Gyfunol.

Myfyriwr Gwyddor Anifeiliaid y Flwyddyn

Llongyfarchiadau mawr iawn i Louise Cabbage, y fyfyrwrraig Gwyddor Anifeiliaid orau yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn 2009. Llongyfarchiadau hefyd i Sam Pearson sydd wedi cyrraedd rownd derfynol Cystadlueaeth Myfyriwr y Flwyddyn Ffermwyr Llaeth Prydain. Bydd Sam yn cael gwybod a fydd wedi ennill y gystadlueaeth yn hwyrach eleni.

Crufts



Fel rhan o'u hastudiaethau, aeth myfyrwyr sy'n astudio anifeiliaid anwes ar y cwrs Gwyddor Anifeiliaid i Crufts eleni i geisio cyflawni dau beth. Fel rhan o'u haseiniad, aethant i ymchwilio i newidiadau diweddar yn amcanion bridio gwahanol gymdeithasau bridio cŵn yng ngoleuni honiadau yn y wasg ac mewn manau eraill am safonau lles gwael. Yn ail, tra roedd y myfyrwyr yn y sioe, gofynnwyd iddynt gasglu samplau o fwyd anifeiliaid sydd fel arfer yn cael ei gynnig. Yna, cafodd y samplau hyn eu dadansoddi mewn sesiwn ymarferol yn y labordy.

Gradd Gwyddor Anifeiliaid yn helpu Eleanor i gymhwyso fel milfeddyg



Eleanor Chruscikowska, a welir yma'n archwilio ceg buwch.

Cafodd Eleanor Chruscikowska, a welir yma'n archwilio ceg buwch, radd Gwyddor Anifeiliaid yn 2006. Defnyddiodd y cymhwyster hwn i

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig IBERS ABERYSTWYTH

Rhestr Cysiau

Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid
Bioleg y Môr a Dŵr Croyw
Gwyddor Anifeiliaid
Gwyddor Chwaraeon Pobl a Cheffylau
Gwyddor Ceffylau
Sŵoleg
Sŵoleg a Microbioleg
Ymddygiad Anifeiliaid

Diddordeb?

Cysylltwch â Fay Hollick ar **01970 624471**
Ebobst: ffh@aber.ac.uk

gael mynediad i ail flwyddyn y radd Gwyddor Filfeddygol ym Mhrifysgol Caeredin, lle mae newydd gwblhau pedwaredd flwyddyn y cwrs. Ysgrifennodd atom yn ddiweddar gyda pheth newyddion a dywedodd gymaint yr oedd yn mwynhau'r cwrs yno. Aeth yn ei blaen, "Byddwn wedi cael trafferth wirioneddol â'r cwrs Gwyddor Filfeddygol oni bai am y radd Gwyddor Anifeiliaid a wnes yn Aber cyn hynny. Mae llawer o fyfyrwyr yn fy mlwyddyn i ac mae tua 60 o 'fyfyrwyr mynediad i raddedigion' eraill yma yn ogystal â'r nifer arferol o fyfyrwyr a ddaeth yn syth o'r ysgol. Mae'r mwyafrif o raddedigion eraill wedi astudio graddau Gwyddor Anifeiliaid, Sŵoleg neu Fioleg, ond nid oes neb ohonynt wedi astudio cymaint ag y gwnaethom ni yn Aber, felly mae hyn yn fantais enfawr i mi - yn arbennig felly oherwydd y wybodaeth eang sydd gennyf am anifeiliaid a'r astudiaethau imiwnoleg a pharatisoleg. Yn ogystal â hynny, o ran deall sut mae ymchwil yn cael ei gynnal, nid yw hyn yn cael ei ddysgu ar y cwrs Milfeddygaeth, ond mae mor bwysig gallu adolygu cyfnodolion mewn modd beirniadol a gwneud cynnydd yn y cwrs. Ta beth, roeddwn am ddiolch yn fawr i chi a dweud 'mod i wrth fy modd yma!' Mae Eleanor yn gobeithio cwblhau ei hastudiaethau Gwyddor Filfeddygol y flwyddyn nesaf ac yna cael gweithio mewn practis milfeddygol.



Methan cangarwôd

Mae rhai wedi awgrymu bod cangarwôd yn creu llai o fethan nag anifeiliaid cnoi cul. O ran cig yn Awstralia, mae'n bosib iawn y gallai'r cangarwôd fod yn ffynhonnell fwyd lawer mwy ecogyfeillgar na'r anifeiliaid cnoi cul sy'n cael eu ffermio yno. Gydag anifeiliaid cnoi cul a changarwôd, mae'r planhigion sy'n cael eu hamlyncu'n cael eu torri i lawr gan fibrobau yn y llwybr traul. Er bod llawer o wybodaeth ar gael eisoes am y mathau o fibrobau mewn anifeiliaid cnoi cul, ychydig o wybodaeth sydd ar gael am y microbau yn llwybrau traul cangarwôd.

Fel rhan o'r prosiect traethawd hir israddedig Gwyddor Anifeiliaid sy'n cael ei gynnal ar y cyd â gwyddonwyr ym Mhrifysgol Gorllewin Awstralia, mae ymchwil yn cael ei gynnal yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig sy'n cymharu poblogaethau bacteriol perfeddion cangarwôd â'r rhai hynny sydd i'w cael yn rwmenau defaid a gwartheg. Amcan y gwaith hwn yw gweld a yw'r bacteria sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn yn y ddau gwahanol fath o lwybrau traul yn debyg neu a oes gan y ddwy rywogaeth boblogaethau bacteriol unigryw yn y perfeddion.

Gwneud dŵr da yn well i'r amgylchedd

Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae Gwyddonwyr Anifeiliaid Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig wedi llwyddo i sicrhau grantiau sy'n werth dros filiwn o bunnoedd i brosiectau ymchwil newydd.

Bydd un o'r rhain yn ymchwilio i fwydo gwartheg godro er mwyn cyfyngu ar y nitrogen y maent yn ei ysgarthu yn eu dŵr. Bydd y prosiect yn rhedeg am 5 mlynedd a'i amcan fydd dod o hyd i ffyrdd o fwydo protein i wartheg godro yn fwy effeithlon a thrwy hynny, y gobaith yw y bydd modd atal anifeiliaid rhag colli nitrogen. Os yw protein yn cael ei fwydo i wartheg godro'n anghywir, mae'r nitrogen y mae'n ei gynnwys yn cael ei ysgarthu drwy'r dŵr. Mae hyn yn wastraff drud ac mae'n broblem ddirifol gan ei fod yn llygru cyrsiau dŵr.



Beth yn benderfynol o sicrhau bod plant yn dysgu am ffermydd ac anifeiliaid ffermydd



Beth Harrison; radd yn cwrs Amaethyddiaeth a Gwyddor Anifeiliaid

Cafodd Beth Harrison radd dosbarth cyntaf yn 2008 yn y cwrs Amaethyddiaeth a Gwyddor Anifeiliaid. Fe'i magwyd yn Sheffield, sy'n gefndir braidd yn anarferol i fyfyrwraig amaethyddiaeth anifeiliaid. Yn y Sioe Frenhinol y llynedd, cyflwynwyd Gwobr Myfyriwr Amaeth Dr Richard Phillips iddi am berfformio orau mewn pwnc sy'n ymwneud â thir mewn Prifysgol Gymreig. Mae ar hyn o bryd yn dilyn cwrs prentisiaeth am flwyddyn gyda Rural Ministries yn Essex.

Meddai, "Nid wyf o gefndir ffermio. Cefais fy magu mewn dinas ac nid oes ffermwyr yn fy nheulu. Dechreuais ymddiddori mewn ffermio pan oeddwn yn yr ysgol uwchradd, a chan anwybyddu'r cyngor a gefais oddi wrth yr ymgynghorwyr gyrfaeodd, penderfynais astudio Amaethyddiaeth a Gwyddor Anifeiliaid yn Aberystwyth. Er fy niffyg profiad fel ffarmwraig, roedd Aber yn barod i roi lle i mi ac roedd yn anrhydedd cael gradd dan arweiniad y staff dysgu yma.

"Mae'n anhygoel meddwl bod cymaint o bethau sylfaenol am amaethyddiaeth nad oeddwn yn gwybod amdanynt gan nad oeddwn erioed wedi dod ar eu traws. Yn fy marn i, mae'n hynod o bwysig bod plant sy'n cael eu magu mewn dinasoedd a threfi, nad ydynt gwybod sut mae ffermydd yn gweithio, yn cael cyfleoedd i ddysgu am amaethyddiaeth.

"Gan fy mod bellach wedi graddio, rwyf am ddefnyddio'r radd mewn modd a fydd yn fy ngalluogi i fod yn rhan o'r broses o sicrhau bod plant heddiw'n cael cyfle i wybod am y diwydiant amaethyddol, a'r ffordd y mae eu bwyd yn cael ei gynhyrchu a phrofi hynny. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle a gefais i ddysgu am ffermio yn gymharol hwyr yn fy addysg. Rwyf am drosglwyddo hyn i blant fel y gallan nhw ddysgu i garu amaethyddiaeth yn gynharach nag y gwnes i".